# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Llandygai

Dyddiad yr arolygiad: 03/11/2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Llandygai yn gymuned gartrefol ac mae gan y disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Mae bron bob un o'r disgyblion yn hynod gwrtais ac maent yn barchus at oedolion ac ymwelwyr. Maent yn ymddwyn yn dda iawn.

Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi dechrau cymryd rhan mewn ystod gyfyng o weithgareddau monitro addas. Er hyn, nid yw prosesau hunanwerthuso'r ysgol yn rhoi dealltwriaeth ddigon clir i arweinwyr o wendidau mewn addysgu a dysgu. Mae hyn yn golygu nad yw prosesau cynllunio yn cefnogi gwelliant effeithiol dros amser. Er bod llywodraethwyr yn gefnogol ac yn rheoli adnoddau'n briodol, nid yw eu rôl mewn gwerthuso perfformiad yr ysgol wedi'i datblygu'n ddigonol.

Ar draws yr ysgol, mae tua hanner o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd addas yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ar draws y meysydd dysgu. Fodd bynnag, o ganlyniad i ddiffygion ym mhrosesau strategol arweinwyr a sut mae athrawon yn cynllunio eu gwersi, nid yw tua hanner o ddisgyblion yn cyflawni hyd orau eu hoed a'u cam datblygu. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu eu medrau siarad a darllen Saesneg, a'u medrau digidol. Er hyn, mae ansawdd yr addysgu yn anghyson, ac yn nosbarthiadau'r disgyblion hŷn, mae disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni yn rhy isel. Mae hyn mewn ystod o fedrau, yn enwedig eu medrau llythrennedd a rhifedd, gan gynnwys datblygiad eu medrau Cymraeg.

Mae'r ysgol wedi cynllunio cwricwlwm pwrpasol a diddorol sy'n cefnogi gwybodaeth disgyblion am eu hardal leol, Cymru a'r byd ehangach. Mae staff wedi meithrin perthnasoedd cadarnhaol rhwng yr ysgol a'i chymuned. Mae disgyblion yn elwa ar ystod ddiddorol o ymweliadau, ymwelwyr i'r ysgol, a chyfleoedd rheolaidd i drafod materion moesol a chymdeithasol.

Mae staff yn blaenoriaethu lles disgyblion ac yn arddel ethos cynhaliol a gofalgar. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n hapus yn yr ysgol ac yn barod i droi at staff am gymorth, fel y bo angen. Darperir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu yn yr awyr agored, ac mae hyn yn cyfrannu at eu lles a'u mwynhad o fynychu'r ysgol. Yn ddiweddar, rhoddir sylw i bwysigrwydd presenoldeb rheolaidd, ond mae presenoldeb parhaus ychydig o ddisgyblion, dros amser, yn rhy isel.

# Argymhellion a beth sy’n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Gwella ansawdd arweinyddiaeth a hunanwerthuso i sicrhau’r gwelliannau angenrheidiol mewn addysgu a dysgu

A2 Gwella presenoldeb disgyblion

A3 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion wella eu medrau llafaredd Cymraeg

A4 Gwella’r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi disgyblion i wneud cynnydd adeiladol yn eu medrau llythrennedd a rhifedd

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o’r ysgol, dilynwch y ddolen hon i’r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae’r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu’n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/01/2026